# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD O BELL A GYNHALIWYD DROS MICROSOFT TEAMS AR DDYDD IAU 30 GORFFENNAF 2020 AM 10.30 A.M.

---

YN BRESENNOL:

Cynghorydd P. Marsden – Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Amgylchedd a Gwasanaethau'r Gymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), Mrs B.A. Jones (Addysg a Chyflawniad), S. Morgan (Adfywio, Trafnidiaeth a Chynaladwyedd), L. Phipps (Cartrefi, Lleoedd a Thwristiaeth) ac E. Stenner (Cyllid, Perfformiad a Chynllunio).

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai), ac R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol).

Hefyd yn bresennol:

R. Tranter (Swyddog Monitro a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol), R. Hartshorn (Pennaeth Polisi a Diogelu'r Cyhoedd), S. Harris (Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Gwella Busnes a'r Swyddog Adran 151), S. Richards (Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg), S. Ellis (Arweinydd Cynhwysiant ac ADY), K. Peters (Rheolwr Polisi Corfforaethol) ac A. Dredge (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau dros absenoldeb gan M. S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Cymunedau).

### 2. DATGANIAD O FUDDIANT

Datganodd R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro) fuddiant mewn perthynas ag Eitem 4 ar yr Agenda - Gwasanaeth Olrhain Cysylltiadau Gwent, gan fod ei wraig yn gweithio i Wasanaeth Tracio ac Olrhain Torfaen ar hyn o bryd. Gan nad yw'n benderfynwr, nid oedd rhaid iddo adael y cyfarfod pan gyflwynwyd yr adroddiad

### 3. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET

Darparwyd Blaenraglen Waith y Cabinet i'r Cabinet, a oedd yn manylu ar yr adroddiadau a oedd ar yr amserlen rhwng 30 Gorffennaf 2020 a 30 Medi 2020. Atgoffwyd yr Aelodau mai dogfen weithredol yw Blaenraglen Waith y Cabinet ac felly'n gallu newid.
Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, fe'i cynigiwyd ac eiliwyd bod y Blaenraglen Waith yn cael ei nodi. Drwy ddangos dwylo cytunwyd hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD y dylid nodi Blaenraglen Waith y Cabinet.

**MATERION LLE MAE ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL ARNYNT**

**4. GWASANAETH OLRHAIN CYSYLLTIADAU GWENT**

**EITEM FRYS - NID YN DESTUN GALW I MEWN**

Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, roedd y Maer wedi cytuno bod y penderfyniad a gynigiwyd yn rhesymol o dan yr holl amgylchiadau ac y dylid ei drin fel mater o frys ac felly'n cael ei eithrio rhag y broses galw i mewn.

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod yr adroddiad yn cael ei ystyried yn fater brys gan fod y staff sy'n darparu'r gwasanaeth hwn ar hyn o bryd yn cael eu hadleoli o wasanaethau eraill awdurdodau lleol. Wrth i'r cyfnod cloi gael ei leddfu, bydd yn ofynnol iddynt ddychwelyd i'w rolau arferol. Felly, roedd angen cytuno ar y strwythur cyflenwi gweithredol, trefniadau llywodraethu a chyllid er mwyn caniatáu recriwtio staff i Wasanaeth Olrhain Cysylltiadau Gwent fel bod gan y gwasanaeth adnoddau priodol ac y gall ymateb i unrhyw gynnydd yn achosion COVID-19.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Olrhain Cysylltiadau yn elfen allweddol o strategaeth ac ymateb Profi, Olrhain a Diogelu Llywodraeth Cymru i'r pandemig COVID-19. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd roi gwasanaethau olrhain cysylltiadau ar y cyd ar waith yn eu rhanbarthau. Yng Ngwent, mae olrhain cysylltiadau wedi bod ar waith ers dechrau mis Mehefin eleni, ac yn cael ei wneud gan staff a adleoliwyd i dimau olrhain cysylltiadau lleol o fewn y 5 Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi cadarnhau trefniadau ariannu ar gyfer gwasanaethau olrhain cysylltiadau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Mae'r adroddiad yn nodi cynigion ar gyfer cam nesaf Gwasanaeth Olrhain Cysylltiadau Gwent sy'n symud o weithlu sydd wedi'i adleoli i fodel gweithlu cwbl gyflogedig er mwyn sicrhau bod capasiti ar gyfer cyflawni llwyddiannus. Rhwng y 1af o Fehefin a 15fed Gorffennaf 2020, cafodd 109 o achosion eu cyfeirio at y gwasanaeth, cysylltwyd yn llwyddiannus â 108, gan greu 316 o gysylltiadau. Gan fod y cyfnod cloi wedi'u lleddfu mae gwasanaethau'n cael eu hailgyflwyno a bydd yn ofynnol i'r staff a adleoliwyd i ddychwelyd i'w rolau arferol. Er bod achosion coronafeirws yn y rhanbarth yn gymharol isel ar hyn o bryd, cynigir recriwtio a hyfforddi'r staff sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod y Gwasanaeth yn gallu bodloni gofynion unrhyw gynnydd posibl mewn achosion.

Cyfeiriwyd y Cabinet at yr Achos Busnes drafft (a atodir i'r adroddiad) sy'n nodi'r strwythur cyflenwi gweithredol arfaethedig, trefniadau llywodraethu a chyllid ar gyfer y gwasanaeth. Bydd y 5 Awdurdod Lleol ynghyd â'r Bwrdd Iechyd yn cyflogi timau olrhain cysylltiadau lleol sy'n cynnwys Staff Olrhain Cysylltiadau, ac Ymgynghorwyr Cysylltiadau. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu 7 diwrnod yr wythnos a chefnogir y timau olrhain cysylltiadau lleol gan Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd awdurdodau lleol ledled y rhanbarth a gan Arweinwyr Clinigol, Ymgynghorwyr ym maes Diogelu Iechyd, ac Ymgynghorwyr mewn Clefydau Trosglwyddadwy o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cynigir mai G10 fydd y Bwrdd Strategol ar gyfer y gwasanaeth. Mae G10 yn gasgliad gwirfoddol o sefydliadau sector cyhoeddus sy'n darparu fforwm arweinyddiaeth strategol i sicrhau gwell canlyniadau i bobl Gwent. Nodwyd mai'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr yw cynrychiolwyr y Cyngor. Cydnabyddir bod yn rhaid i'r Gwasanaeth fod yn ymatebol iawn pe bai trosglwyddo cymunedol yn cynyddu ac yn gallu cael ei uwchraddio'n gyflym ac yn effeithiol er mwyn sicrhau olrhain cysylltiadau llwyddiannus ac effeithiol. Pan gaiff ei staffio'n llawn, byddai'r gwasanaeth yn cynnwys tua 350 o staff yng Ngwent, a byddai tua 100 ohonynt yn gweithio yn nhîm Caerffili.

Ystyriodd y Cabinet yr adroddiad a gofynnwyd am eglurhad pellach mewn perthynas â staff sydd wedi'u hadleoli o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sydd yn dychwelyd i'w swyddi arferol. Dywedodd swyddogion fod tua 30 o staff wedi'u hadleoli ar hyn o bryd ac nad oes

pwysau o fewn yn eu gwasanaeth iddynt ddychwelyd. Bwriedir i rai staff ddychwelyd i'w rolau drwy gydol mis Medi. Darparwyd enghraifft o rai staff o Wasanaethau Hamdden yn cael eu cadw o fewn y Gwasanaeth Olrhain Cysylltiadau yn amodol ar gyhoeddiad Llywodraeth Cymru ar ailagor Canolfannau Hamdden. Mae rheolwyr o fewn Gwasanaethau Hamdden yn fodlon y gall Canolfannau Hamdden ailagor mewn ffordd benodol tra bod staff yn parhau i gael eu hadleoli yn y Gwasanaeth Olrhain Cysylltiadau. Sicrhawyd yr aelodau, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet, y byddai recriwtio yn cael ei wneud ar unwaith, ac y byddai hyfforddiant yn cael ei gynnal dros y mis nesaf.

Cofnododd y Cynghorydd P. Marsden ei diolch i Bennaeth Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd, Cymunedol a Hamdden am y Rôl Strategol y mae ef a'i Dîm wedi'i chymryd wrth sefydlu'r gwasanaeth newydd sbon gwych hwn mewn cyfnod mor fyr, ar draws ardal Gwent.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Drwy ddangos dwylo cytunwyd hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog i wneud y canlynol:

(i) cymeradwyo strwythur cyflawni gweithredol, llywodraethu a chyllid Gwasanaeth Olrhain Cysylltiadau Gwent fel y nodir yn yr adroddiad a'r Achos Busnes drafft yn Atodiad 1, yn amodol ar gytuno Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth;

(ii) awdurdodi’r Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Cymunedau i gytuno ar unrhyw ddiwygiadau i'r Achos Busnes drafft, yn amodol ar ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd a Gwasanaethau’r Gymdogaeth, Gwasanaethau Cyfreithiol, a'r Swyddog Adran 151;

(iii) awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Cymunedau i ymrwymo i Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ynghylch Gwasanaeth Olrhain Cysylltiadau Gwent, yn amodol ar ymgynghoriad â’r Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd a Gwasanaethau’r Gymdogaeth, Gwasanaethau Cyfreithiol, a'r Swyddog Adran 151;

(iv) y dylid nodi mai’r Arweinydd a'r Prif Weithredwr yw cynrychiolwyr y Cyngor ar G10 a’r dirprwyon yw'r Aelod Cabinet a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, yn y drefn honno.

## 5. YMATEB CYMUNEDOL - CYSYLLTIAD CYMUNEDOL - CYNLLUN CYFEILLIO

Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am yr ymateb cymunedol i’r argyfwng COVID-19, gan ganolbwyntio ar gynllun cyfeillio’r Cyngor i gefnogi preswylwyr hŷn ac agored i niwed i gadw'n ddiogel gartref drwy ddarparu cymorth ychwanegol lle nad oes ganddynt rwydwaith cymorth. Mae'r adroddiad yn nodi'r camau nesaf ar gyfer y cynllun a sut y gall y Cyngor ddefnyddio’i etifeddiaeth gadarnhaol i gefnogi rhai o'r trigolion mwyaf agored i niwed yn y tymor hwy.

Mae gweithrediad y cynllun cyfeillio ar waith wedi cael cyhoeddusrwydd trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol y Cyngor ac mae dau Aelod Cabinet wedi bod yn gweithredu fel ‘cyfeillion’ yn eu cymunedau lleol. Esboniwyd bod ymateb y staff i'r cais i gefnogi pobl wedi bod yn rhyfeddol, gyda 385 yn camu i fyny ar unwaith er mwyn gwirfoddoli, ac yn ddiweddarach, gwasanaethau'n cynnig adleoli staff i’r rôl cyfeillio. Ar y brig, roedd 1560 o bobl agored i niwed yn cael cymorth ac roedd 590 o staff yn helpu gyda siopa bwyd, casglu presgripsiynau a darparu cymorth cyfeillgar cyffredinol. Cyfeiriwyd y Cabinet at Atodiadau 1 a 2 yr adroddiad sy'n crynhoi'r buddion i'r staff, a'r bobl a gefnogwyd sydd wedi elwa o'r cynllun cyfeillio. Estynnodd y Cynghorydd E. Stenner ei diolch personol i bawb a gymerodd ran, ac adleisiwyd y teimlad hwn gan y Cabinet.

Nododd y Cabinet fod y sefyllfa i breswylwyr hŷn ac agored i niwed bellach yn llawer gwell nag yr oedd yn y cyfnodau cynnar pan oedd prinder bwyd a chiwiau yn norm. Ers hynny, mae llawer o bobl sydd wedi cofrestru ar y cynllun wedi gallu trefnu eu mynediad eu hunain at fwyd a meddyginiaethau. Fodd bynnag, mae maint y cais am gymorth yn amlygu nifer y bobl sy'n agored i niwed yn y gymuned, nad oes ganddynt rwydwaith cymorth o'u cwmpas.

Mae'r adroddiad yn gwneud nifer o gynigion i drosglwyddo'r cynllun i rwydwaith cymorth sy'n 'nes at gymunedau' fel y gall ddod yn brosiect cynaliadwy tymor hwy er mwyn lliniaru materion unigrwydd ac unigedd. Rhan o hyn fydd gweithio'n agosach gyda'r grwpiau cymorth cymunedol niferus a sefydlwyd a sefydlu carfan o wirfoddolwyr cymunedol sy'n gweithio mewn partneriaeth â Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (CMGG).

Mae'r adroddiad yn argymell sefydlu cynllun Gwirfoddoli Corfforaethol, a fydd yn caniatáu i staff barhau yn y rôl cyfeillio fel rhan o'r cynllun caniatâd absenoldeb, gyda disgwyliad y byddant yn ymrwymo o leiaf swm cyfatebol o'u hamser eu hunain. Bydd adroddiad pellach yn cael ei ddarparu ar werthuso'r cynllun ar ôl chwe mis, gyda'r bwriad o sefydlu cynllun Gwirfoddoli Corfforaethol ehangach er budd y cymunedau yn y Fwrdeistref Sirol. Y cynnig yw trosglwyddo'r cynllun o'r Uned Polisi Corfforaethol i'r Tîm Adfywio Cymunedol gydag argymhelliad i ariannu dwy swydd o gronfeydd wrth gefn Gwasanaethau Cymdeithasol am gyfnod o ddwy flynedd.

Trafododd y Cabinet gynnwys yr adroddiad a gofynnodd Aelod am eglurhad mewn perthynas â'r tua 100 o staff mewn ysgolion sy'n ymwneud â'r cynllun ar hyn o bryd, a gofynnodd a fyddai'r aelodau staff hynny'n debygol o barhau i ddarparu cymorth gwirfoddoli. Cyfeiriwyd yr aelodau at adroddiad diweddar a gyflwynwyd i'r Cabinet, lle bydd Swyddogion yn ystyried Adolygiad Corfforaethol yn fuan. Mae'r Cynllun Gwirfoddoli Corfforaethol yn un llinyn a fydd yn rhan o'r adolygiad, lle gallai'r corff sefydledig ystyried staff ysgol fel rhan o'r Cynllun Gwirfoddoli Corfforaethol ledled yr Awdurdod. Mae'n annhebygol ar hyn o bryd y bydd y staff mewn ysgolion yn gallu parhau i ddarparu'r gwasanaeth. O ran gweithio gyda Grwpiau Cymunedol, mae Swyddogion yn teimlo bod hwn yn gyfle cyffrous i fynd ymhellach na'r 'cynllun cyfeillio' sydd wedi'i sefydlu oherwydd argyfwng COVID-19. Y gobaith yw pan fydd y seilwaith ar waith, a bydd hyn yn cynnig cyfleoedd ehangach i weithio gyda grwpiau cymunedol.

Darparodd yr Aelodau enghreifftiau unigol o'r diolchgarwch a ddangoswyd gan drigolion yn eu cymunedau o'r gwasanaethau a ddarparwyd iddynt gan y Cyngor a'r gwirfoddolwyr sy'n darparu'r gwasanaeth.

Pwysleisiodd y Cynghorydd P. Marsden fod cynaliadwyedd yn allweddol, ac mae'r sefyllfa hon yn symbol o'r hyn y mae angen i Awdurdodau Lleol ei wneud o ran helpu a chefnogi cymunedau, ac ychwanegodd fod hwn yn gyfle gwych i'r Tîm Adfywio Cymunedol. Diolchodd hi'r holl staff dan sylw, a'r Cynghorydd S. Morgan a'r Cynghorydd L. Phipps am gymryd rhan yn y 'cynllun cyfeillio'. Nodwyd hefyd y buddion sy'n gysylltiedig â'r Gymuned a'r Gwirfoddolwyr sydd dan sylw.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo argymhellion yr adroddiad. Drwy ddangos dwylo cytunwyd hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar y rhesymau a gynhwyswyd yn Adroddiad y Swyddog:-

(i) i nodi'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad;

(ii) i gytuno ar ddyraniad gwerth £130,262 o gyllid o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd gan Wasanaethau Cymdeithasol, fel yr amlinellir dan bwyntiau 10.1 i 10.6 y goblygiadau ariannol yn yr adroddiad. Byddai'r gyllideb hon yn cwmpasu'r penodiadau arfaethedig am gyfnod o 2 flynedd;

(iii) sefydlu rhagflaenydd ar gyfer Gwirfoddoli Corfforaethol, gan adeiladu ar yr ewyllys da a welir yn Atodiad 1, trwy gynorthwyo staff i barhau yn rôl y cyfeillio trwy ychwanegu categori at y Polisi Absenoldeb o hyd at 2 ddiwrnod y flwyddyn mewn oriau, pro rata. Y disgwyliad yw y byddai hyn yn cael ei gyfateb â chyfnod cyfatebol o'u hamser eu hunain. Gwerthuso'r canlyniadau ar ôl 6 mis trwy arolygu'r staff a'r rheolwyr dan sylw gyda'r bwriad o sefydlu Cynllun Gwirfoddoli Corfforaethol ehangach;

(iv) cyflwynir adroddiad pellach yn ymwneud â'r Adolygiad Corfforaethol ar Wirfoddoli Corfforaethol.

## 6. STRATEGAETH ADDYSG HEBLAW YN YR YSGOL

Roedd y Pwyllgor Craffu Addysg wedi ystyried y strategaeth, a atodwyd i'r prif adroddiad, ar 24 Chwefror 2020. Nodwyd barn y Pwyllgor Craffu yn yr adroddiad eglurhaol. Dywedwyd wrth y Cabinet fod y strategaeth wedi'i datblygu mewn ymgynghoriad ag ysgolion ac y bydd yn cyd-fynd â'r Cynllun Gwella Gwasanaethau a dogfennau strategol eraill. Y nod yw darparu gwasanaeth o ansawdd da i bobl ifanc, gydag uchelgais y dylent deimlo'n bwysig ac yn ddiogel yn eu hamgylchedd dysgu.

Mae'r strategaeth yn cynnwys Pasbort a Llyfr Canllaw i bob plentyn, i'w helpu i ennill eu cymwysterau ffurfiol a hefyd sicrhau eu bod yn cael cymorth emosiynol a lles. Yr uchelgais yw rhoi'r un canlyniadau i'r plant hyn ag unrhyw blentyn arall. Mae darpariaeth dda eisoes gydag amrywiaeth o opsiynau o'r Ganolfan Ddysgu, Addysg Gartref, Canolfannau Arloesi yng Nghoed Duon a Rhymni yn ogystal â'r Canolfannau Cynnydd Dysgu sydd wedi'u lleoli yn Ysgol Gyfun Heolddu ac Ysgol Lewis, Pengam. Mae'r strategaeth yn amlinellu dull cydweithredol gydag ysgolion drwy waith allgymorth a Chanolfan Dysgwyr Agored i Niwed ar sail model 'Both ac Adain'.

Dywedwyd wrth y Cabinet fod Cyngor Caerffili wedi ymrwymo i sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfle cyfartal ac yn cydnabod hawl pob plentyn a pherson ifanc i gael addysg o ansawdd uchel. Mae'r Cyngor yn uchelgeisiol ar ran dysgwyr a hoffai Swyddogion weld y ddarpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol ledled Cymru yn rhoi'r un mynediad at hawliau addysg i ddisgyblion fel sydd gan eu cyfoedion. Mae swyddogion am sicrhau, hyd yn oed pan fydd angen mynediad i ddarpariaeth y tu allan i ysgolion, fod hyn o safon uchel a bod cysylltiadau'n cael eu cynnal ag ysgolion a chymunedau fel ffordd o sicrhau bod plant yn parhau i deimlo'u bod yn perthyn.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Mrs B. A. Jones fod yn rhaid i'r Awdurdod geisio adeiladu ar yr arfer da presennol a datblygu'r ddarpariaeth gywir er mwyn sicrhau'r weledigaeth hon. Mae hyn yn golygu sicrhau bod amrywiaeth o gyfleoedd priodol o ansawdd uchel ar gael i blant a phobl ifanc ledled Caerffili, yn seiliedig ar eu hanghenion. Bydd y ganolfan ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed wrth wraidd y weledigaeth hon a chaiff ei chefnogi gan ystod o ddarpariaethau lloeren a ddatblygir er mwyn cefnogi plant sydd ag anghenion penodol. Bydd hyn yn galluogi'r Cyngor i ymateb i'r plant a'r bobl ifanc unigol gan ganolbwyntio ar eu lles a'u hiechyd meddwl, yn ogystal â datblygu eu mynediad i gyfleoedd dysgu ffurfiol o'r ansawdd uchaf. Bydd y dull hefyd yn cynnwys datblygu'r gweithlu er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r cyfleoedd hyfforddiant priodol i ddiwallu'r anghenion hyn, a hyrwyddo cydweithio gydag asiantaethau eraill.

Roedd y Cabinet yn gyfan gwbl yn cefnogi'r strategaeth a chytunodd fod darparu cydraddoldeb i bob dysgwr y tu mewn a thu allan i amgylchedd yr ysgol yn hanfodol. Mae rhai plant wedi cael profiadau anodd a heriol ac mae'n bwysig bod yr Awdurdod yn cefnogi'r unigolion hyn ac yn cefnogi uchelgeisiau'r maes hwn yn y dyfodol. Diolchodd y Cabinet i'r Swyddogion am eu gwaith caled a'u cefnogaeth wrth gydweithio a datblygu'r Strategaeth hon. Mae hwn yn gyfnod newydd i Gaerffili gyda gwaith allgymorth ac mae'r strategaeth yn cwmpasu'r holl linynnau sydd wedi dod at ei gilydd. Mae Caerffili'n cydnabod y newidiadau sy'n digwydd mewn cymdeithas.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Drwy ddangos dwylo cytunwyd hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar y rhesymau a geir yn Adroddiad y Swyddog, y dylid cytuno’r Strategaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol sydd yn atodiad 1.

## 7. DAL I FYNY Â DYSGU

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet i roi gwerslyfrau craidd a chanllawiau adolygu i bob disgybl ym Mlynyddoedd 10 ac 11 ar gyfer Cymraeg neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr i wneud cynnydd parhaus, yn ogystal â lliniaru yn erbyn unrhyw effaith bosibl ar ddarparu'r adnoddau ffisegol hyn, yn galluogi tua 4000 o ddysgwyr sydd ar gyfnod allweddol yn eu haddysg i adennill rhywfaint o'r tir a gollwyd i'r pandemig.

Er y bydd ysgolion wedi'u trefnu i ddychwelyd ym mis Medi, ni ellir rhagweld gydag unrhyw sicrwydd, effaith bellach COVID-19 dros y misoedd nesaf. Os bydd yn ofynnol i ysgolion gau eu drysau eto, naill ai mewn ymateb i gloi lleol neu ranbarthol, mae'r Cyngor yn dymuno bod yn y sefyllfa gryfaf bosibl er mwyn sicrhau nad yw dysgwyr o dan fwy o anfantais. Bydd cael set lawn o werslyfrau a chanllawiau adolygu ar gael ar gyfer pob disgybl yn sicrhau y gall dysgwyr barhau â'u haddysg hyd yn oed os bydd yn rhaid cyfyngu ar fynediad corfforol i ysgolion ar unrhyw adeg yn y dyfodol.

Esboniwyd y gellir teilwra'r adnoddau hyn hefyd i fodloni lefelau ac angen penodol dysgwyr, gan sicrhau nad oes unrhyw ddysgwr o dan anfantais. Bydd y gwerslyfrau'n eistedd ochr yn ochr ag adnoddau ar-lein a digidol er mwyn darparu dysgu cyfunol mewn modd mwy gwydn. Bydd sicrhau bod yr adnoddau ar gael hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar lwyth gwaith athrawon ac yn rhoi hwb enfawr i ysgolion a dysgwyr ar adeg allweddol.

Roedd y Cabinet yn llwyr gefnogi'r adroddiad a chadarnhaodd Swyddogion ei bod yn hanfodol bod y Cyngor yn paratoi ar gyfer y misoedd i ddod. Gweithio'n barhaus gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Thechnoleg Addysg i ganiatáu i ddysgwyr gael gafael ar adnoddau ar-lein, gan ddefnyddio dyfeisiau. Bydd y dysgu cyfunol hwn yn rhoi'r cyfleoedd gorau posibl i ddysgwyr, ac maent yn haeddu hynny.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Drwy ddangos dwylo cytunwyd hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar y rhesymau a geir yn Adroddiad y Swyddog, i gytuno i ddefnyddio £302 mil o gyllid untro o Gronfa Tanwariant Wrth Gefn Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol i ddarparu cyfres o werslyfrau craidd a chanllawiau adolygu i bob dysgwr blwyddyn 10 a blwyddyn 11 ledled Caerffili.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:15am.

Wedi'i gymeradwyo a'i llofnodi fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Medi 2020.

______________________

CADEIRYDD